HM Government

# Ymgynghoriad ynghylch newidiadau a gynigir i God Ymarfer (y Cod) Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) a gweithrediad y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS), gan gynnwys deddfwriaeth eilaidd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

## Hysbysiad Preifatrwydd

Cyhoeddwyd Hydref 2021

## Crynodeb o'r Fenter/Polisi

Pwrpas Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yr MCA) yw amddiffyn a grymuso pobl a all fod â phrinder gallu meddyliol ar hyn o bryd i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal a thriniaeth. Mae hefyd yn galluogi pobl sydd â gallu i baratoi am adeg pan y gallant fod â phrinder gallu yn y dyfodol. Mae'r MCA yn berthnasol yn Lloegr ac yng Nghymru.

Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 (MC(A)A) a byddant yn disodli'r system Trefniadau Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd yr LPS yn amddiffyn pobl 16 oed neu'n hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth ac sydd â phrinder gallu meddyliol i gydsynio â'r trefniadau hyn.

Mae pobl a all fod ganddynt awdurdodiad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cynnwys y rhai hynny â dementia, awtistiaeth ac anableddau dysgu sydd â'r prinder gallu perthnasol.

Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid wedi'u llunio i roi hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth graidd yr holl benderfyniadau am amddifadu o ryddid.

Byddwn yn cyhoeddi Cod Ymarfer MCA cyn iddo gael ei gyflwyno yn y Senedd, fel y gallwn ymgynghori arno ar ffurf drafft. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar chwe set o reoliadau LPS, strategaeth hyfforddi i weithwyr y bydd yn rhaid iddynt weithredu'r LPS, Asesiad Effaith, a'r data y bydd yn rhaid i Gyrff Cyfrifol eu casglu. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn casglu ymatebion a fydd yn cynnwys data y mae angen i ni eu cadw'n ddiogel.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn prosesu "data personol" o dan y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) - rydym yn cynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn er mwyn eglurder yn unig ynghylch sut y byddwn yn trin unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

## Rheolydd Data

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yw'r rheolydd data ar gyfer data a ddatgelir drwy ein ffurflen ar-lein (a gynhelir gan SurveyOptic) i gasglu ymatebion ymgynghori. Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar data_protection@dhsc.gov.uk.

## Y data rydym yn eu casglu

Ar ddechrau'r arolwg, byddwn yn rhoi cyfle i chi gyflwyno gwybodaeth am eich oedran, rhywedd, ym mha wlad yn y DU rydych yn byw, a ydych yn rhiant neu'n warcheidwad, ac a ydych yn ystyried bod gennych brofiad bywyd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ai peidio. Gallwch dicio 'Mae'n well gen i beidio â dweud' ar gyfer unrhyw un o'r categorïau hyn os na fyddwch am gyflwyno'r wybodaeth hon. Nid yw'r data hyn yn ddata personol oherwydd nid yw'n ymwneud ag unigolyn naturiol sydd wedi'i adnabod neu y gellir ei adnabod. Rydym yn casglu'r data hyn i ddadansoddi tueddiadau'n unig.

Byddwn hefyd yn gofyn cwestiynau agored gyda blychau ateb testun rhydd. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl, yn enwedig os oes ganddynt brofiad bywyd, yn dewis datgelu gwybodaeth bersonol yn y blychau hyn. Er enghraifft, efallai byddant yn rhoi eu hoedran fel cyd-destun ar gyfer ymateb. Os bydd unrhyw un yn cynnwys gwybodaeth a allai eu hadnabod yn bersonol yn eu hatebion, megis eu henw, byddwn yn diystyru'r ymateb. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn prosesu unrhyw ddata personol fel rhan o'r ymgynghoriad.

## Sut byddwn yn defnyddio eich data

Mae eich data'n cael eu casglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori i'n helpu i ddeall sut bydd y polisi hwn yn effeithio ar bobl yn ymarferol, fel y gallwn wneud unrhyw welliannau angenrheidiol cyn cyhoeddi'r Cod Ymarfer a gweithredu'r LPS. Ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod fel unigolyn.

## Derbynwyr data

Bydd yr holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu rhannu rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder oherwydd mai ymgynghoriad ar y cyd yw hwn rhwng yr Adrannau hynny. Mae'n bosibl y bydd cynrychiolaethau penodol hefyd yn cael eu rhannu gydag adrannau llywodraeth canolog a'u hasiantaethau, megis yr Adran Addysg, pan fydd angen defnyddio eu harbenigedd. Ni fydd y DHSC, MoJ na'r DfE yn defnyddio'r data i adnabod unrhyw unigolion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd unrhyw ddata personol a ddatgelir ar ddamwain yn cael eu diystyru.

## Sut byddwn yn casglu ac yn storio eich data'n ddiogel

Rydym yn defnyddio system trydydd parti, SurveyOptic, i gasglu ymatebion ymgynghori. Mae meddalwedd SurveyOptic yn galluogi sefydliadau i sefydlu a gweithredu ymarferion democrataidd, lle byddant yn ymgysylltu â chi.

Pan fyddwch yn cyrchu ac yn defnyddio SurveyOptic, bydd eich gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r arolwg yn mynd at y rheolydd data ar gyfer yr ymgynghoriad. DHSC ac MoJ yw'r sefydliadau sy'n rhedeg y wefan hon ac yn gweithredu fel proseswyr data.

Rôl SurveyOptic yw prosesu'r data hyn ar ran y rheolydd. Mae prosesu'n golygu (ymysg pethau eraill): sicrhau bod y wefan hon yn rhedeg yn gywir, bod eich data'n cael eu storio'n ddiogel ac ar gael i'r rheolydd fel y gallant wneud eu gwaith yn effeithiol.

Prif bwrpas SurveyOptic yw creu llwyfannau meddalwedd sy'n eich helpu i ddweud eich dweud. I wneud hyn, mae angen i ni sicrhau pan fyddwch chi'n gwneud hynny, bod eich data'n ddiogel ac y gellir gweithio ag ef yn effeithiol. Ni fydd SurveyOptic yn cyrchu eich data personol oni bai y gofynnir iddynt wneud hynny gan y rheolydd, ac at ddibenion eich helpu chi neu eu helpu nhw'n unig.

Yn y lle cyntaf, bydd eich data'n cael eu storio ar eu gweinyddwyr diogel sydd wedi'u lleoli yn y DU. Bydd eich data'n aros ar weinyddwyr SurveyOptic a/neu'n cael eu trosglwyddo i'n system TG ddiogel y llywodraeth i'w cadw am ddwy flynedd o ddiwedd yr ymgynghoriad cyn iddynt gael eu dileu'n ddiogel.

## Trosglwyddiadau data rhyngwladol a lleoliad(au) storio

Rydym yn ymdrin â'ch data'n unol â'r gweithdrefnau a thechnolegau priodol i gynnal ac amddiffyn eu diogelwch, argaeledd, cyfrinachedd ac uniondeb, ac atal eu bposesu anghyfreithlon neu anawdurdodedig, colled neu ddifrod damweiniol, o'r adeg y cânt eu casglu tan iddynt gael eu dinistrio.

Ni anfonir eich data dramor.

Caiff y data ei storio gan SurveyOptic drwy weinyddwyr diogel a leolir yn y Deyrnas Unedig (DU).

## Polisi cadw a gwaredu

Cedwir eich data am ddwy flynedd o ddiwedd yr ymgynghoriad.

## Gwneud penderfyniadau neu broffilio awtomatig

Ni ddefnyddir eich data ar gyfer unrhyw benderfyniadau awtomatig.

## Sylwadau neu gwynion

Dylai unrhyw un sy'n anfodlon neu sydd am gwyno ynghylch sut y defnyddir data fel rhan o'r rhaglen hon gysylltu â data_protection@dhsc.gov.uk yn y lle cyntaf neu ysgrifennu at:

Y Swyddog Diogelu Data
1st Floor North
39 Victoria Street
Llundain
SW1H 0EU

Gall unrhyw un sy'n parhau'n anfodlon gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Eu gwefan yw www.ico.org.uk a'u cyfeiriad post yw:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaerlleon
SK9 5AF

## Newidiadau i'r polisi hwn

Adolygir yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd, a bydd fersiynau newydd ar gael ar ein tudalen hysbysiadau preifatrwydd ar ein gwefan. Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Awst 2021.
© Hawlfraint y Goron 2019

Rheoli a Sicrhau Risg Gwybodaeth/Swyddfa'r Swyddog Diogelu Data www.gov.uk/dhsc

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint o dan sylw.

OGL